# CYLCH GORCHWYL
# PWYLLGOR ARCHWILIO TŶ'R CWMNÏAU

**Un o Asiantaethau Gweithredol yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS)**

**1. Cyflwyniad**

Mae Bwrdd Llywio Tŷ'r Cwmnïau wedi sefydlu'r Pwyllgor Archwilio ar ffurf is-bwyllgor er mwyn cynorthwyo a chynghori'r Swyddog Cyfrifyddu ar faterion archwilio, llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar draws holl feysydd y busnes. Mae'r Pwyllgor yn ategu gwaith y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu trwy adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r sicrwydd a roddir wrth ddiwallu anghenion y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu o ran sicrwydd, ac yn adolygu dibynadwyedd ac uniondeb y sicrwydd hwnnw. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu mewn cyd-destun ymgynghorol anweithredol.

**2. Aelodaeth**

Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys Tri Aelod Anweithredol o Fwrdd Llywio Tŷ'r Cwmnïau. Mae cyfansoddiad priodol i'r pwyllgor pan fo dau neu ragor o Aelodau'r Bwrdd Anweithredol yn bresennol. Tŷ'r Cwmnïau fydd yn penodi holl aelodau'r pwyllgor gan o dan egwyddorion yr Hysbysiad Penodiadau Cyhoeddus. Ceir rhestr o aelodau cyfredol y pwyllgor yn yr Atodiad i'r Cylch Gorchwyl hwn.

Bydd Tîm Ysgrifenyddiaeth Tŷ'r Cwmnïau yn darparu gwasanaeth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Pwyllgor Archwilio.

**3. Adrodd**

**3.1** Bydd y Pwyllgor yn meithrin hyder yn y system rheoli fewnol trwy ddod ag elfen annibynnol a thrwy roi arweiniad ar reolaeth ariannol a mathau eraill o reolaeth fewnol.

**3.2** Bydd yn darparu asesiad gwrthrychol o'r datganiadau ariannol diwedd blwyddyn a'r adroddiadau cysylltiedig ac yn rhoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â chymeradwyo'r datganiadau.

**3.3** Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adrodd i'r Bwrdd Llywio ar ei weithgareddau a'i ganfyddiadau fel y bo'n briodol. Anfonir cofnodion at holl aelodau'r Bwrdd Llywio ar ôl pob cyfarfod a darperir adroddiad llafar ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Llywio.

**4. Cyfrifoldebau**

**4.1** Cynorthwyo'r Swyddog Cyfrifyddu wrth gyflawni ei rwymedigaethau o ran archwilio, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol, a hynny trwy ddarparu fforwm drafod ar gyfer materion sy'n gysylltiedig ag archwilio mewnol ac allanol.

**4.2** Cyflwyno canllawiau annibynnol ar reoli risg, trin a rheoli arian, a monitro, a chynghori ar y mesurau a gymerir i reoli'r rhain gan ddilyn yr arferion gorau.

**4.3** Derbyn adroddiadau gan yr Archwilwyr Mewnol (a gwasanaethau eraill sy'n rhoi sicrwydd) a chynghori ar ddigonolrwydd ymateb y rheolwyr i'r materion sy'n codi yn sgil y gwaith archwilio o bryd i'w gilydd.

**4.4** Cynghori ar ffurf a chynnwys y datganiadau ariannol blynyddol a'u hadolygu.

**4.5** Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio (neu aelod arall o'r Pwyllgor Archwilio os nad yw'r Cadeirydd ar gael) fydd yn cadeirio'r cyfarfod terfynol i gymeradwyo'r Cyflwyniad Llywodraethu Corfforaethol bob blwyddyn, a hynny ym mis Mawrth.

**4.6** Adolygu a chymeradwyo cynnwys y Datganiad ar Reolaeth Fewnol.

**4.7** Gweithredu fel pwynt cyfeirio canolog a mynd ati'n ymarferol i lywio'r gwaith archwilio mewnol ac allanol, a gwaith y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

**4.8** Cwrdd â'r archwilwyr mewnol ac allanol yn annibynnol os ystyrir bod hynny'n briodol.

**4.9** Adolygu perfformiad y pwyllgor ei hun yn rheolaidd gan ddilyn y gweithdrefnau ar arferion da.

**4.10** Adolygu Cylch Gorchwyl y pwyllgor bob blwyddyn.

**4.11** Adolygu'r polisïau atal twyll, y prosesau o ran chwythu'r chwiban a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

**4.12** Cymeradwyo'r cynllun Archwilio Mewnol bob blwyddyn.

**5. Mynediad**

Caiff y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r cynrychiolydd Archwilio Allanol fynediad rhydd a chyfrinachol i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

**6. Cyfarfodydd**

**6.1** Cynhelir o leiaf tri chyfarfod y flwyddyn, ond fel arfer cynhelir pedwar cyfarfod ym mhob blwyddyn ariannol. Gellir cynnal y cyfarfodydd hyn yng Nghaerdydd, Caeredin neu Belffast, yn dibynnu pa leoliad sydd fwyaf cyfleus a chost-effeithiol.

**6.2** Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn talu costau teithio rhesymol ar gyfer aelodau Anweithredol o'r Bwrdd.

**6.3** Bydd angen i o leiaf dau o'r tri aelod parhaol fod yn bresennol er mwyn sicrhau cworwm mewn unrhyw gyfarfod.

**6.4** Gall y Pwyllgor Archwilio ofyn i unrhyw swyddogion eraill o'r sefydliad fod yn bresennol i fwydo trafodaethau ar faterion penodol.

**6.5** Gall y Pwyllgor Archwilio ofyn i unrhyw un o'r bobl sy'n mynychu fel arfer ond nad ydynt yn aelodau, neu bob un ohonynt, adael y cyfarfod er mwyn hwyluso trafodaeth agored a didwyll ar fater penodol.

**6.6** Gall y Bwrdd neu'r Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor Archwilio alw cyfarfodydd pellach i drafod materion penodedig y maent am ofyn cyngor y Pwyllgor arnynt.

**6.7** Cymerir cofnodion ym mhob cyfarfod. Caiff y cofnodion eu cynhyrchu a'u dosbarthu er mwyn casglu sylwadau arnynt a chânt eu cymeradwyo cyn pen deg diwrnod gwaith ar ôl pob cyfarfod. Cânt eu dosbarthu wedyn i'r Bwrdd Llywio. Caiff y cofnodion hyn eu cyhoeddi ar safle mewnrwyd Tŷ'r Cwmnïau er mwyn i'r holl staff eu darllen, os ydyn nhw'n dymuno.

**7. Gofynion Gwybodaeth**

Nodir yr eitemau craidd a fydd ar yr agenda yn y Rhaglen Dreigl sydd ynghlwm.

**Tŷ'r Cwmnïau**
**Rhagfyr 2009**

**Atodiad i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio**

**Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fydd:**

Rodger Hughes

**Aelodau anweithredol cyfredol eraill y Pwyllgor fydd:**

Alex Jablonowski
Nicki Alberry

**Gall yr unigolion canlynol fynychu'r cyfarfodydd trwy wahoddiad:**

Gareth Jones, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth
Mike Nash, Y Cyfarwyddwr Cyllid
Jon Whitfield, Y Pennaeth Archwilio Mewnol
Cyfarwyddwr y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Prif Archwiliwr Cyswllt
Pobl eraill a all ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol fel y bo'n briodol

# RHAGLEN DREIGL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2010

| | |
|---|---|
| **Eitemau rheolaidd ar yr agenda** | Rhaglen Waith yr Archwilwyr Mewnol<br>• Y datblygiadau diweddaraf<br>• Materion/adolygiadau penodol<br>• Adolygu'r rhaglen<br>Y Gofrestr Risgiau, rheoli risg a risgiau lefel uwch<br>Annibyniaeth yr aelodau<br>Rheoli Asedau Gwybodaeth (pob mis Medi?) |
| **Eitemau rheolaidd er gwybodaeth** | Y Cynllun Archwilio Allanol<br>Briff Misol y Bwrdd Llywio<br>Y Rhaglen Dreigl |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **Pynciau trafod eraill** |
| **Dydd Mawrth<br>23 Chwefror 2010<br>Caerdydd** | Y Trefniadau ar gyfer Paratoi'r Cyfrifon<br>Rhaglen Waith Arfaethedig yr Archwilwyr Mewnol<br>Adroddiad ar y Strategaeth Archwilio Allanol<br>Sicrwydd ar y Risg Lefel Uwch o Dwyll |
| **Mai 2010<br>All-Bwyllgor** | Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol<br>Argymhellion i'r Swyddog Cyfrifyddu<br>• Y Cyfrifon Blynyddol<br>• Datganiad ar y system rheolaeth fewnol yn Nhŷ'r Cwmnïau<br>• Sicrwydd yr Archwilwyr Mewnol i'r Swyddog Cyfrifyddu<br>• Testun yr Adroddiad Blynyddol<br>• Adolygu'r Polisïau Cyfrifyddu |
| **Dydd Gwener,<br>18 Mehefin 2010<br>Caerdydd** | Cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu ar yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol terfynol<br>Canfyddiadau'r Archwiliwr Allanol a materion sy'n codi o'r llythyr rheoli<br>Cyfarfod preifat ar gyfer Aelodau Anweithredol y Bwrdd a Mazars yn syth ar ôl y prif gyfarfod |
| **Dydd Mercher,<br>8 Medi 2010<br>Caerdydd** | Eitemau Risg Allweddol?<br>Rheoli Asedau Gwybodaeth? |
| **Dydd Mercher,<br>8 Rhagfyr 2010<br>Caerdydd** | Y cynllun archwilio allanol ar gyfer 2010<br>Amserlen diwedd y flwyddyn<br>Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio<br>Arferion a gweithdrefnau'r Pwyllgor Archwilio; adolygu effeithiolrwydd (caiff 1 awr ei neilltuo cyn y cyfarfod i'r aelodau lenwi holiaduron, a chaiff Andrew Summers ei gynnwys yn y cyfarfod) |

*Eitemau Risg Allweddol i'w drafod yn fanwl mewn rhai cyfarfodydd